**PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 12 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy a S. Lloyd-Selby

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, a V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), E. Goodjohn, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr M.J.G. Morgan and S.D. Perkes a D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Aviet fuddiant yn Eitemau Agenda 4 a 5 – Cau Cyfrifon 2022/23 a Chau Cyfrifon Cyfalaf 2022/23, yn y drefn honno. Natur ei buddiant yn y ddwy eitem oedd ei bod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd Hennessy fuddiant yn Eitemau Agenda 4 a 5 – Cau Cyfrifon 2022/23 a Chau Cyfrifon Cyfalaf 2022/23, yn y drefn honno. Natur ei fuddiant yn y ddwy eitem oedd ei fod yn denant i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd hwn yn fuddiant personol yn unig ac nid yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 19.3.3(b)(ii)(A) Cyfansoddiad y Cyngor. Felly, arhosodd y Cynghorydd Hennessy yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

EITEM AGENA 4. CAU CYFRIFON 2023/23 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi’r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Nodi dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON CYFALAF 2022/23 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi sefyllfa gyfalaf diwedd y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

(2) Nodi cyllidebau cynllun ychwanegol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) Nodi sefyllfa gryno y newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf gan y Gyfarwyddiaeth ogymeradwyaeth yn y Cyngor ar 7 Mawrth, 2022 i 31 Mawrth, 2023 fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

(4) Nodi’r Pŵer Brys a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2022/23 (CAT) -

ARGYMHELLWYD –

(1) nodi’r canlyniadau perfformiad Chwarter 4 a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) nodi’r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.